Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Enw Gareth Jones

Cwmni/Corff Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol Ceredigion

Cwestiynau

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

Ydw. Mae'n hanfodol bwysig i gyflawni yn sgil ymateb i ofynion y rhai sy'n siarad Cymraeg ac yn wir i hybu mwy i ddysgu ac i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth deledu yn elfen hollbwysig yn niwylliant ein plant.

2. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

Ydw. 'Dw i ddim yn hollol si□ o hyn, ond wedi penderfynu pwyso tuag at y cadarnhaol. Byddai angen i drydydd parti weithredu'n unol a'r holl ofynion sydd ar S4C ac i'w holl reoliadau.

3. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

Nac ydw.

4. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

Mae unrhyw welliant/gynnydd mewn oriau darlledu i'n Plant yn gaffaeliad, a byddwn o'i blaid. Mae'n bwysig cynnig yr arlwy priodol ar yr amseroedd priodol. Byddwn i'n ffafrio defnyddio'r sianel a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddarlledu trafodion y Cynulliad yn ychwanegol, fel y'i nodir yn un o'r opsiynau (Opsiwn 2 os cofiaf yn iawn), a threfnu bod darparwr trydydd parti'n gyfrifol am y gwasanaeth hwnnw.

5. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

Ansawdd y rhaglenni
Elfennau o berthnasedd i gwricwlwm ysgolion
Nifer digonol o oriau darlledu
Amserau sylweddol a digonol

6. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

Opsiwn 2, fel y nodwyd uchod, fyddai'n cael ei ffafrio gennym ni.

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Nac oes